



Papur Gwybodaeth

Mae'r papur gwybodaeth hwn yn edrych ar Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd ar 20 Medi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei Rhaglen Lywodraethu ar gyfer 2016-2021, dan deitl ***Symud Cymru Ymlaen***. Mae'r cyhoeddiad yn dilyn oedi cyn cyhoeddi'r Rhaglen yn dilyn y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Mehefin.

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y mesurau a'r cynigion y mae'n credu fydd yn darparu mwy o swyddi, a'r rheiny'n swyddi gwell, drwy economi cryfach a thecach, gwella a diwygio ein gwasanaethau cyhoeddus ac adeiladu Cymru unedig, gysylltiedig a chynaliadwy. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen braidd yn ysgafn ar fanylion darpariaeth a gwybodaeth allweddol am gyllido a chynigion deddfwriaethol.

Y prif gynigion yw:

1. Tai

Yn dilyn ymgyrch lwyddiannus Cartrefi i Gymru yn y cyfnod cyn yr etholiadau i'r Cynulliad, a enillodd gefnogaeth yr holl bleidiau ar draws y Cynulliad, mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud yr ymrwymadau dilynol:

- Gweithio mewn partneriaeth i gyflenwi 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn y tymor nesaf, yn cynnwys cefnogi adeiladu mwy na 6,000 o gartrefi drwy'r cynllun Cymorth Prynu.
- Cyflwyno model tai newydd 'Rhentu i Berchnogi'
- Edrych ar ffyrdd o roi diwedd ar fancio tir
- Parhau i gydweithio yn yr hirdymor gydag adeiladwyr tai er mwyn cynyddu'r gyfradd adeiladu tai
- Dod â'r Hawl i Brynu i ben
- Parhau i gefnogi gwaith Swyddogion Galluogi Tai Gwledig

Effaith ar aelodau

Bydd y targed tai uwch yn her i gymdeithasau tai ond ar ôl bod yn allweddol wrth ragori ar dargedau tai dau dymor diwethaf Llywodraeth Cymru, credwn fod y sector yn barod i'r her. Byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gytuniad tairochrog sy'n galluogi aelodau i gyflenwi'r cartrefi fforddiadwy rydym eu hangen. Bu nifer o drafodaethau yng nghyswllt y cytuniad ar dir, a chroesawn symudiadau i roi diwedd ar fancio tir.



Ynghyd â hyn, mae'r cynigion i ddod â'r Hawl i Brynu i ben yn galonogol gan ddiogelu stoc tai hanfodol, felly hefyd barhau'r gefnogaeth i Swyddogion Hwyluso Tai Gwledig; mae angen i'r cynigion cael sicrwydd cyllid i'w cefnogi. Edrychwn ymlaen at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar fanylion llawer o'r polisiau hyn, yn cynnwys Rhentu i Berchnogi. Mae cymdeithasau tai yn gweithio'n galed i ddarparu tai ar gyfer y rhai mewn angen ar draws daliadaethau a gall hyn fod yn gyfle i'r sector.

2. Swyddi a Sgiliau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau nifer o gynigion ar swyddi a sgiliau oedd wedi eu cynnwys ym maniffesto Llafur Cymru, yn cynnwys

- Creu o leiaf 100,000 o brentisiaethau o safon uchel i bobl o bob oed
- Ail-lunio cymorth cyflogadwyedd ar gyfer unigolion sy'n barod i gael swyddi, a'r rhai sydd bellaf o'r farchnad lafur, er mwyn iddynt gael y sgiliau a'r profiad i ennill a chadw swyddi cynaliadwy.
- Cynnal cynllun peilot o brosiect Swyddi Gwell yn Nes Adref wedi'i lunio i greu canolfannau cyflogaeth a hyfforddiant mewn ardaloedd difreintiedig iawn yn economaidd
- Parhau i wella polisiau caffael er mwyn dod â manteision economaidd, cymdeithasol a chymunedol i Gymru

Effaith ar aelodau

Mae cyfraniad cymdeithasau tai yn allweddol i economi Cymru; y llynedd, roedd ein heffaith economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol cyfun yn £2bn. Bu cefnogi'r cymunedau y gweithiwn ynddynt drwy greu swyddi ansawdd uchel a chynnig prentisiaethau a hyfforddiant da yn rhan allweddol o hyn. Mae'r targed o 100,000 o brentisiaethau safon uchel yn uchelgeisiol, a bydd gan gymdeithasau tai gyfle enfawr i gefnogi cyflwyno hyn drwy'r ymrwymiad yma. Gall hefyd wrthbwyso peth o effaith Lefi Prentisiaeth Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y sector.

3. Gofal a Phobl Hŷn

Roedd gofal yn fater allweddol a godwyd yn gyson drwy gydol yr etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o gynigion maniffesto Llafur Cymru yn y maes hwn, gan ymrwymo i:

- Fwy na dyblu'r cyfalaf y gall pobl ei gadw pan fyddant yn mynd i mewn i ofal preswyl i £50,000



- Sicrhau bod deddfwriaeth arloesol ar wasanaethau cymdeithasol yn cael ei gweithredu'n llawn a bod yr holl fanteision yn cael eu gwireddu
- Cadw'r Gronfa Gofal Canolraddol

Effaith ar aelodau

Gyda nifer cynyddol o'n haelodau yn gweithio mewn gofal, byddwn yn cadw golwg agos ar y datblygiadau hyn. Mae llawer o aelodau wedi codi pryderon mewn gwahanol fforymau am gomisiynu gwasanaethau gofal, ac mae'r fframwaith deddfwriaethol newydd yn rhoi cyfle i sicrhau fod y system yn gweithio i alluogi ein haelodau i barhau i gynnig gofal ansawdd uchel. Wrth ochr hyn, mae'r cynlluniau i barhau i gyllido'r Gronfa Gofal Canolraddol yn galonogol, ond credwn fod angen gwneud mwy i integreiddio iechyd a thai, ac mae'n rhaid i gyflenwi'r Gronfa Gofal Canolraddol yn awr gysylltu gyda chronfeydd cyllid arall i ganiatáu'r integreiddiad agosach hwn yn yr hirdymor.

4. Cefnogi Busnesau

Roedd cymorth i fusnesau yn thema allweddol arall ym manifesto Llafur Cymru a soniwyd amdano'n gyson ers y bleidlais i adael yr Undeb Ewropeaidd, gyda nifer o Weinidogion Cymru yn datgan fod Cymru ar 'agor am fusnes'. Mae mesurau i gefnogi busnesau a all fod ag effaith ar gymdeithasau tai yn cynnwys:

- Sefydlu Tasglu Gweinidogol ar gyfer y cymoedd
- Cyflawni Bargen Dinas-ranbarth Caerdydd a datblygu bargaen debyg i Abertawe a Bargen Twf ar gyfer y Gogledd
- Dod â phobl ynghyd yn ddigidol drwy gynnig band eang cyflym a dibynadwy i bob eiddo yng Nghymru
- Ceisio helpu 95% o bobl i sicrhau o leiaf y sgiliau digidol sylfaenol sydd eu hangen ar gyfer y 21ain ganrif erbyn 2021

Effaith ar aelodau

Mae nifer o gyfleoedd ar gyfer y sector yn y gwahanol fargeinion Dinas a Thwf sy'n cael ei datblygu ac mae'n hollbwysig y caiff cymdeithasau tai eu cynnwys yn y trafodaethau hyn. Bydd CHC yn parhau i gyflwyno'r achos i aelodau gymryd rhan fel y gwnaethom gyda Bargen Twf Dinas Caerdydd. Mae'r uchelgais i ymestyn gwell darpariaeth band eang a darpariaeth sgiliau digidol yn galonogol, yn arbennig yng ngoleuni newidiadau drwy Credyd Cynhwysol.



5. Mesurau eraill

Cafodd nifer o fesurau eraill a all effeithio ar waith cymdeithasau tai eu cyhoeddi fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu yn cynnwys:

- Sefydlu Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol i roi mwy o sicrwydd a chynaliadwyedd ar gyfer buddsoddiad yn y dyfodol.
- Cynigion ar y Gymraeg i weithio tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
- Creu Metro De Cymru a darparu ffordd liniaru ar gyfer yr M4 a gwelliannau i'r A55
- Gweithio gyda llywodraeth leol i adolygu'r dreth gyngor i'w gwneud yn decach, fel bod pobl ag eiddo sydd o werth isel neu gymedrol yn talu llai nag y maent yn ei dalu nawr

Effaith ar aelodau

Mae'n hollbwysig bod y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol yn ystyried tai o ran yr effaith economaidd a hefyd gynaliadwyedd hirdymor buddsoddiad mewn seilwaith.

Mae Safonau'r Gymraeg yn rhan allweddol o waith Llywodraeth Cymru i sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, a gyda'r Safonau'n cael eu datblygu ar gyfer y sector ar hyn o bryd, bydd CHC yn parhau i weithio'n agos gydag aelodau i'w cefnogi yn y broses o fabwysiadu'r safonau. Bydd hyn yn cynnwys cynnig hyfforddiant penodol i aelodau fel rhan o'n gwaith gydag Agored Cymru.

Gallai newidiadau treth gyngor gael dau effaith ar aelodau; yn y lle cyntaf, mae newidiadau i filiau ar gyfer tenantiaid yn debygol o gael effaith sylweddol gyda'r diwygio lles cyfredol. Yn ail, gall diwygio treth gyngor effeithio ar gyllid Llywodraeth Leol, ac mae unrhyw ostyngiad mewn cyllid ar gyfer gwasanaethau Llywodraeth Lleol yn debyg o gael effaith ar wasanaethau lleol.